



CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 Rhif 2746 (Cy.244)

2004 No. 2746 (W.244)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**Gorchymyn Castell-nedd Port
Talbot a Phowys (Cwm-twrch)
2004**

**The Neath Port Talbot and Powys
(Cwmtwrch) Order
2004**

NODYN ESBONIADOL

EXPLANATORY NOTE

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

(This note is not part of the Order)

Mae'r Gorchymyn hwn, a wneir yn unol ag adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, yn gwneud cynigion gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru yn effeithiol.

This Order, made in accordance with section 58(2) of the Local Government Act 1972, gives effect to proposals of the Local Government Boundary Commission for Wales.

Bu i Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru ("y Comisiwn") adrodd ym mis Mai 2003 ar arolwg a gynhaliwyd ganddo o ran o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch. Yr oedd yr adroddiad yn argymhell newidiadau i ran o'r ffin bresennol, ac effaith y rheini oedd y byddai rhan o gymuned Ystalyfera yn ardal Cwm-twrch (a ddangosir ar y map ffiniau gyda llinellau rhesog du, ac y cyfeirir ati yn y Gorchymyn) sydd yn awr ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, yn mynd yn rhan o gymuned Ystradgynlais yn Sir Powys. Mae'r Gorchymyn hwn yn gwneud yr awgrymiadau hynny'n effeithiol, heb unrhyw addasiad iddynt.

The Local Government Boundary Commission for Wales ("the Commission") reported in May 2003 on a review conducted by the Commission of part of the boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys in the area of Cwmtwrch. The report recommended changes to part of the existing boundary, the effect of which would be that part of the community of Ystalyfera in the area of Cwmtwrch (shown hatched black on the boundary map and referred to in the Order) at present in the County Borough of Neath Port Talbot, would form part of the Community of Ystradgynlais in the County of Powys. This Order gives effect to those recommendations without modification.

Adnewydw copïau o'r map ffiniau sy'n dangos y ffin newydd yn swyddfeydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yng Nghanolfan Ddinesig Port Talbot, yn swyddfeydd Cyngor Sir Powys yn Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys ac yn swyddfeydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, a gellir edrych arnynt yn ystod oriau gwaith arferol.

Copies of the boundary map showing the new boundary are deposited and may be inspected during normal office hours at the offices of Neath Port Talbot County Borough Council at Civic Centre, Port Talbot, at the offices of Powys County Council at County Hall Llandrindod Wells, Powys and at the offices of the National Assembly for Wales at Cathays Park, Cardiff.

Mae Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 (fel y'u diwygiwyd) ("Rheoliadau 1976"), y cyfeirir atynt yn Erthygl 1(2)

The Local Government Area Changes Regulations 1976 (as amended) ("the 1976 Regulations"), referred to in Article 1(2) of this Order contain incidental,

o'r Gorchymyn hwn, yn cynnwys darpariaethau cysylltiedig, canlyniadol, trosiannol ac atodol ynghylch effaith a gweithredu gorchmynion megis y gorchymyn hwn.

Mae newidiadau canlyniadol i adrannau etholiadol Ystalyfera a Chwm-twrch, i gyd-fynd â'r ffin gymunedol newydd, ac i'r ffin rhwng siroedd Gorllewin Morgannwg a Phowys, sydd wedi'u cadw, gan adlewyrchu'r newid i'r ffin rhwng y Fwrdeistref Sirol a'r Sir, sydd, yn eu tro, bellach yn rhan o'r siroedd hynny sydd wedi'u cadw.

consequential, transitional and supplementary provisions about the effect and implementation of orders such as this.

There are consequential changes to the electoral divisions of Ystalyfera and Cwmtwrch to correspond with the new community boundary, and to the boundary between the preserved counties of West Glamorgan and Powys reflecting the change to the boundary between the County Borough and County which, respectively, form part of those preserved counties.

2004 Rhif 2746 (Cy.244)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

**Gorchymyn Castell-nedd Port
Talbot a Phowys (Cwm-twrch)
2004**

Wedi'i wneud

13 Hydref 2004

Yn dod i rym yn unol ag Erthygl 1(2)

Mae Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Cymru, ac yntau wedi cyflwyno adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adrannau 54(1) a 58(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(a), dyddiedig Mai 2003 ynghylch ei adolygiad o ran o'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch, ynghyd â chynigion a ffurfiwyd gan y Comisiwn;

A Chynulliad Cenedlaethol Cymru, ac yntau wedi penderfynu gwneud y cynigion yn effeithiol heb eu haddasu;

A chan fod mwy na chwech wythnos wedi mynd heibio ers i'r cynigion hynny gael eu cyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

Yn awr, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 58(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac sydd wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru(b), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi a chychwyn

1.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 1 Ebrill 2005, sef y diwrnod penodedig at ddibenion y Rheoliadau, gyda'r eithriad bod rheoliad 4(1) o'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 1 Rhagfyr 2004.

(a) 1972 p.70.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), erthygl 2 ac Atodlen 1.

2004 No. 2746 (W.244)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

**The Neath Port Talbot and Powys
(Cwmtwrch) Order
2004**

Made

13 October 2004

Coming into force in accordance with Article 1(2)

The Local Government Boundary Commission for Wales, having submitted to the National Assembly for Wales, in accordance with sections 54(1) and 58(1) of the Local Government Act 1972(a), a report dated May 2003 on its review of part of the boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys in the area of Cwmtwrch, together with the proposals formulated by the Commission;

And the National Assembly for Wales having decided to give effect to those proposals without modification;

And more than six weeks having elapsed since those proposals were submitted to the National Assembly for Wales;

Now the National Assembly for Wales, in exercise of the powers given to the Secretary of State by section 58(2) of the Local Government Act 1972 and which are vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in relation to Wales(b), makes the following Order:

Name and commencement

1.-(1) This Order is called the Neath Port Talbot and Powys (Cwmtwrch) Order 2004.

(2) This Order comes into force on 1 April 2005, which is the appointed day for the purposes of the Regulations, except that for the purposes set out in regulation 4(1) of the Regulations, this Order comes into force on 1 December 2004.

(a) 1972 c.70.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), article 2 and Schedule 1.

Dehongli

2. Ystyr "y map ffiniau" ("*the boundary map*") yw'r map a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac sydd wedi'i farcio "Map Ffiniau Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004" ac a adnewyd yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau;

ystyr "y Rheoliadau" ("*the Regulations*") yw Rheoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol 1976 fel y'i diwygiwyd(a).

Newidiadau i'r Ffiniau Sirol

3. Mae'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch wedi'i newid yn unol ag Erthygl 4.

Ffin Sirol newydd

4. Mae'r ffin rhwng y rhannau hynny o Fwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys yn ardal Cwm-twrch, a ddangosir ar y map ffiniau, i gynnwys yr hyn a ddangosir ar y map ffiniau fel "Ffin Sirol Newydd/Ffin Newydd Sir wedi'i Chadw", gyda'r canlyniad bod yr ardal o dir a ddangosir gyda llinellau rhesog du ar y map ffiniau i'w chynnwys yn Sir Powys yn lle ym Mwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Newid canlyniadol i adrannau etholiadol

5. Newidir ffiniau ward Ystalyfera yng nghymuned Ystalyfera (sy'n ffurfio rhan o ardal etholiadol Ystalyfera), a ward Cwm-twrch yng nghymuned Ystradgynlais (yn ardal etholiadol Cwm-twrch) fel eu bod yn cyd-fynd â'r ffin fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4.

Newid canlyniadol i Ffin Siroedd Wedi'u Cadw

6. Mae ffiniau siroedd Gorllewin Morgannwg a Phowys, sef y siroedd sydd wedi'u cadw, wedi'u newid er mwyn iddynt gyd-fynd â'r ffin rhwng Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a Sir Powys fel y'i diwygiwyd gan erthygl 4.

Interpretation

2. "the boundary map" ("*y map ffiniau*") means the map prepared by the National Assembly for Wales and marked "Boundary Map of the Neath Port Talbot and Powys (Cwmtwrch) Order 2004" and deposited in accordance with Regulation 5 of the Regulations;

"the Regulations" ("*y Rheoliadau*") means the Local Government Area Changes Regulations 1976 as amended(a).

Changes in County boundaries

3. The boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys in the area of Cwmtwrch is amended in accordance with Article 4.

New County boundary

4. The boundary between those parts of the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys in the area of Cwmtwrch which are shown on the boundary map is to include that shown on the boundary map as "New County Boundary/New Preserved County Boundary" with the result that the area of land shown hatched on the boundary map is to be included in the County of Powys instead of in the County Borough of Neath Port Talbot.

Consequential change to electoral divisions

5. The boundaries of the Ystalyfera ward in the community of Ystalyfera (which forms part of the Ystalyfera electoral division), and the Cwmtwrch ward in the community of Ystradgynlais (in the Cwmtwrch electoral division) are amended so as to coincide with the boundary as amended by article 4.

Consequential change to Preserved County Boundary

6. The boundaries of the preserved counties of West Glamorgan and Powys are amended so as to coincide with the boundary between the County Borough of Neath Port Talbot and the County of Powys as amended by article 4.

(a) O.S. 1976/246, fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Newidiadau yn Ardaloedd Llywodraeth Leol (Diwygio) 1978 O.S. 1978/247.

(a) S.I. 1976/246 as amended by the Local Government Area Changes (Amendment) Regulations 1978 S.I. 1978/247.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales.

13 Hydref 2004


13 October 2004

Sue Essex

Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a
Gwasanaethau Cyhoeddus


The Minister for Finance, Local Government and
Public Services

Map Ffiniau Gorchymyn Castell-nedd Port Talbot a Phowys (Cwm-twrch) 2004



Cartograffeg, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Mae'r map hwn wedi'i atgynhyrchu o fap yr Arolwg Ordnans gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyda charniatâd Rheolwr Gwasg El Nawrhydi.
© Hawffraint y Goron. Cedwir pob hawl. Mae atgynhyrchu heb awdurdod yn torri hawffraint y Goron a gall arwain at erlym neu
achos sifil. Rhif y Drwydded: 100017916

Boundary Map of the Neath Port Talbot (Cwmtwrch) Order 2004



Cartographics, National Assembly for Wales
 This map is reproduced from the Ordnance Survey map by the National Assembly for Wales with the permission of The Controller of Her Majesty's Stationery Office. © Crown copyright. All rights reserved. Unauthorised reproduction infringes Crown copyright and may lead to prosecution or civil proceedings. Licence Number: 100017916

OFFERYNNAU STATUDOL

2004 Rhif 2746 (Cy.244)

**LLYWODRAETH LEOL,
CYMRU**

Gorchymyn Castell-nedd Port
Talbot a Phowys (Cwm-twrch)
2004

STATUTORY INSTRUMENTS

2004 No. 2746 (W.244)

**LOCAL GOVERNMENT,
WALES**

The Neath Port Talbot and Powys
(Cwmtwrch) Order
2004

© Hawlfraint y Goron 2004

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

£3.00

W151/10/04

ON

© Crown copyright 2004

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-091013-3



9 780110 910130